
Deloitte.

# Archwiliad o’r Timau Troseddwyr Ifanc

Mai 2015



# Archwiliad o'r Timau Troseddwyr Ifanc

## Diben yr Archwiliad hwn

1.1 Ar hyn o bryd mae **157 o Dimau Troseddwyr Ifanc (YOT) yn gweithredu ledled Cymru a Lloegr**. Sefydliadau amlasiantaeth yw'r rhain sydd â ffocws lleol ac sy'n gweithio gyda phobl ifanc hyd at 18 oed i ymdrin ag ymddygiadau troseddol. Mae strwythur, amgylchedd polisi a dulliau gweithio Timau Troseddwyr Ifanc wedi esblygu'n sylweddol ers iddynt gael eu creu drwy Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998.

1.2 Comisiynwyd Deloitte gan yr Uned Polisi Cyfiawnder Ieuenctid yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder i gasglu a dadansoddi data am weithgareddau Timau Troseddwyr Ifanc yng Nghymru a Lloegr (yr '**Archwiliad YOT**'). Diben y gwaith ymchwil hwn oedd **creu darlun o sut y mae model y Timau Troseddwyr Ifanc wedi esblygu'n lleol ac yn genedlaethol,** gan gynnwys gwahaniaethau mewn strwythurau sefydliadol, trefniadau cyllido a phenderfyniadau ar wariant, a dulliau o weithio. Cynhaliwyd yr Archwiliad hefyd i ystyried sut y mae Timau Troseddwyr Ifanc wedi ymateb i newidiadau yn y galw a'r gweithgareddau y maent yn ymgymryd â hwy.


1.3 Bwriad y gwaith ymchwil hwn oedd helpu i lywio'r Weinyddiaeth Cyfiawnder mewn perthynas â nifer o feysydd gan gynnwys ymhle y mae Timau Troseddwyr Ifanc yn canolbwyntio'u hadnoddau, sut y maent yn cydweithio ag asiantaethau eraill, eu lefelau atebolrwydd ac, yn y pen draw, eu gwerth am arian. Bwriedid hefyd i waith ymchwil Deloitte wneud cyfres o **argymhellion annibynnol** ynghylch darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr o ran y camau nesaf a meysydd i ymchwilio iddynt ymhellach.

## Y dull gweithredu

### Methodoleg

2.1 Cwblhawyd yr Archwiliad a'r dadansoddiadau cysylltiedig rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2015. Mae'r dull gweithredu a fabwysiadwyd wedi'i grynhoi isod.

Ffigur 2.i: Dull gweithredu Deloitte ar gyfer yr Archwiliad



2.2 Yn ystod y prosiect, casglwyd swm sylweddol o dystiolaeth sylfaenol newydd drwy'r 'gwibiadau gwaith maes', a hynny drwy gyfrwng yr arolwg (cafwyd ymatebion gan fwy na 130 o Dimau Troseddwyr Ifanc – sef 85% o'r holl Dimau Troseddwyr Ifanc) a thrafodaethau â mwy na 600 o ymarferwyr ar draws 20 o Dimau Troseddwyr Ifanc. Yn ychwanegol at hynny, cyfarfu tîm Deloitte â nifer fawr o bartïon â diddordeb neu bartneriaid y Timau Troseddwyr Ifanc ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn dod i ddeall y sefyllfa ehangach.

2.3 Casglwyd data eilaidd o setiau data sydd ar gael i'r cyhoedd fel y rhai a ddarperir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

2.4 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg ar brif ganfyddiadau'r Archwiliad

## Prif ganfyddiadau

### Penawdau


3.1 Ar y lefel ehangach, canfu'r Archwiliad hwn yr hyn a ganlyn:

- **Mae gan y system Timau Troseddwyr Ifanc nifer o gryfderau: mae timau'n gweithio'n agos ac yn effeithiol gydag asiantaethau partner ac mewn modd cyfannol i ystyried anghenion ehangach pobl ifanc.**
- **Mae anghysondeb rhwng yr hyn y mae Timau Troseddwyr Ifanc yn ei wneud a'r hyn sy'n cael ei fesur gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, sy'n ei gwneud yn anodd iawn asesu perfformiad a gwerth am arian.**
- **Mae gwaith dadansoddi cynnar o gydberthyniadau'n awgrymu bod ffocws cul ar leihau nifer y newydd-ddyfodiaid tro cyntaf, y niferoedd yn y ddalfa neu gyfraddau aildroseddu yn awgrymu'n unig fod cyllid presennol y Weinyddiaeth Cyfiawnder (drwy'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid) wedi'i ddyrannu'n wael, ac y gellid ei ddiwygio heb effeithio ar y deilliannau cyfiawnder ieuenctid penodol hyn fel y'u mesurir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (yn ôl y diffiniad presennol).**
- **Fodd bynnag, mae hyn yn creu perygl o danseilio deilliannau eraill sy'n ymwneud ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc y gall Timau Troseddwyr Ifanc gael dylanwad cadarnhaol arnynt.**
- **Gellid gwella atebolrwydd a'r dull goruchwylio lleol a chenedlaethol yng nghyswllt Timau Troseddwyr Ifanc ond, o gofio nad y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw eu prif ffynhonnell gyllid, ni fydd cymhellion ac amcanion Timau Troseddwyr Ifanc yn cyd-fynd â'r Weinyddiaeth o reidrwydd.**

### Canfyddiadau penodol

3.2 Mae'r prif ganfyddiadau a nodir isod wedi'u grwpio ar draws tair lefel sy'n adlewyrchu'r gwahanol agweddau ar waith Timau Troseddwyr Ifanc a'u perthynas ag asiantaethau eraill. Nid ydynt yn cyd-fynd â themâu ymchwil gwreiddiol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ond maent yn adlewyrchu'r hyn a gafodd ei arsylwi yn yr Archwiliad o ran y modd y mae Timau Troseddwyr Ifanc yn gweithredu'n lleol. Mae'r lefel gyntaf yn ystyried Timau Troseddwyr Ifanc mewn modd cul, gan ganolbwyntio ar yr hyn y maent yn ei wneud yn unig. Mae'r ail lefel yn symud i ystyried eu perfformiad ar draws mesurau cyfiawnder fel y'u diffinnir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r lefel derfynol yn gosod Timau Troseddwyr Ifanc yn eu cyd-destun yn yr amgylchedd ehangach, gan ymchwilio i'w rôl o ran dylanwadu ar ddeilliannau i bobl ifanc mewn modd cyfannol.

## Rôl y Timau Troseddwyr Ifanc




3.3 **Mae pob Tîm Troseddwyr Ifanc yn parhau i gyflawni dyletswyddau statudol craidd mewn ymateb i warediadau ffurfiol, ac mae'r mwyafrif (75%) yn cyflawni hefyd ryw fath o weithgaredd ataliol ehangach gyda phobl ifanc**. Mae'r ystod o ymyriadau a ddefnyddir yn parhau i esblygu, ac mae wedi'i theilwra i raddau mawr ac yn cael ei hailadrodd i ddiwallu anghenion pobl ifanc. Mae gan Dimau Troseddwyr Ifanc gryn ymreolaeth i roi cynnig ar ymyriadau newydd ac ychydig a nododd eu bod wedi'u hatal rhag gwneud hynny oherwydd pwysau ariannol.

3.4 **Mae Timau Troseddwyr Ifanc yn canolbwyntio ar yr unigolyn fel person, yn hytrach na throseddwr, gan ganolbwyntio ar ddull cyfannol i ddiwallu holl anghenion yr unigolyn; mae hyn yn golygu bod Timau Troseddwyr Ifanc yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gellid ei ystyried yn gymesur yn eu hymyriadau â phobl ifanc mewn rhai achosion.** Fodd bynnag, dylid nodi bod Timau Troseddwyr Ifanc yn parhau i dreulio'r rhan fwyaf o'u hamser – 86% – yn ymgymryd ag ymyriadau ar gyfer troseddwyr, yn hytrach nag ar ddargyfeirio neu weithgareddau ataliol.

3.5 **O brofiad ehangach a welwyd gan Deloitte, mae gwaith amlasiantaeth Timau Troseddwyr Ifanc yn gymharol effeithiol ac nid yw'n ymddangos i fod yn arwain at ddyblygu gwasanaethau.** Wrth i Dimau Troseddwyr Ifanc gyd-blethu i raddau mwy â thimau Gwasanaethau Plant (dim ond 15% o Dimau Troseddwyr Ifanc sy'n gweithredu ar ffurf unedau annibynnol) a chyfranogi mewn polisïau trawsadrannol fel Teuluoedd Cythryblus, bydd mwy o waith cyfannol ac o ystyried amgylchedd teuluol troseddwyr neu ddarpar droseddwyr.

3.6 **Y model lleol sy'n cynnwys gweithio'n agos mewn partneriaethau yw un o gryfderau gwirioneddol y model presennol a dylai unrhyw ddiwygiadau geisio cadw hyn, gan fynd i'r afael â'i gyfyngiadau ar yr un pryd.** Mae'r model lleol yn caniatáu i Dimau Troseddwyr Ifanc ddeall yn well y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy a bod wedi'u lleoli yn ôl trefn ddaearyddol sy'n gwneud synnwyr iddynt.

3.7 **Yn achos gwasanaethau nad oes llawer o alw amdanynt, neu sydd â galw afreolaidd (fel Goruchwylio ac Arolygu Dwys neu ddarpariaeth garcharol) mae'n annhebyg y bydd Timau Troseddwyr Ifanc yn gallu cyflawni arbedion maint.** Mewn achosion o'r fath, gallai gwasanaethau o'r fath gael eu darparu ar draws ardaloedd Timau Troseddwyr Ifanc, a hynny gan dimau rhanbarthol o bosibl.

3.8 **Mae'r galw am ymyriadau mewn ymateb i warediadau ffurfiol wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae Timau Troseddwyr Ifanc yn nodi bod anghenion yn dod yn fwyfwy cymhleth o ran y bobl ifanc y maent yn ymdrin â hwy.** Rhwng 2009/10 a 2013/14[1], gostyngodd nifer y bobl ifanc a oedd yn cael deilliannau sylweddol 61%, gan leihau nifer y newydd-ddyfodiaid tro cyntaf i'r gwasanaeth

[1] At ddibenion cysondeb â dadansoddiadau ariannol, roedd yr holl ddata ar gyfer yr Archwiliad hwn yn ymwneud â chyfnod 2009/10-2013/14.

cyfiawnder. Fodd bynnag, er bod y niferoedd wedi gostwng, nododd Timau Troseddwyr Ifanc y gwnaed arolwg o'u barn ac yr ymgynghorwyd â hwy fod anghenion fwyfwy cymhleth ymhlith y bobl ifanc yr ymdrinnir â hwy. Nid yw'n glir er hynny a yw'r cynnydd hwn mewn cymhlethdod yn ffenomen wirioneddol neu'n arwydd bod dulliau asesu Timau Troseddwyr Ifanc yn dod yn fwy soffistigedig.

3.9 **Cafwyd gostyngiad cysylltiedig yn llwythi achosion ymarferwyr Timau Troseddwyr Ifanc.** Gostyngodd nifer gyfartalog y gwarediadau fesul ymarferydd (sef dull procsi o nodi llwythi achosion) o 21 i 11 rhwng 2009/10 a 2013/14.

3.10 **Dros y cyfnod hwn, cafwyd lleihad hefyd i'r cyllid, a leihawyd 20%, sef o oddeutu £370 miliwn yn 2009/10 i oddeutu £300 miliwn yn 2013/14.** Mae'r gostyngiad mwyaf wedi deillio o grant llai y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, sy'n golygu ei fod bellach yn cyfateb i tua thraean yn unig o'r holl gyllid ar gyfer Timau Troseddwyr Ifanc.

3.11 **Ynghyd â'r gostyngiadau yn y galw a'r cyllid cafwyd gostyngiad yn nifer y staff, er bod y gostyngiad yn nifer y staff (gostyngiad o 26% yn genedlaethol) yn llai na'r gostyngiad yn y galw.** Roedd mwyafrif y Timau Troseddwyr Ifanc a gafodd eu cyfweld wedi ymateb i'r gostyngiadau i'r cyllid drwy leihau costau rheoli a cheisio peidio â lleihau'r ddarpariaeth o wasanaethau rheng flaen. Bellach mae 65% o'r Timau Troseddwyr Ifanc â gweithlu sydd â llai na 50 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn. Ymddengys fod y ddarpariaeth rheng flaen wedi cael ei chadw i raddau helaeth, er bod hynny wedi'i helpu o ganlyniad i lwythi achosion yn lleihau.

3.12 **Mae'r gostyngiad yn nifer y staff, o'i gyfuno â pharau i neilltuo amser ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar, wedi golygu nad yw Timau Troseddwyr Ifanc, er y bu gostyngiad yn y galw, wedi cynyddu'r amser y maent yn ei dreulio gyda'r unigolion sydd â'r risg uchaf neu sydd â'r dedfrydau mwyaf sylweddol neu ddifrifol.** Hefyd nid oes mwy o amser wedi'i neilltuo ar gyfer yr unigolion hyn yn benodol gan fod Timau Troseddwyr Ifanc wedi parhau â dull gweithredu cyfannol – sef diwallu anghenion yr holl bobl ifanc, fel y nodir yn 3.4.

3.13 **Mae tua chwarter o weithlu'r Timau Troseddwyr Ifanc yn meddu ar gymwysterau proffesiynol sy'n caniatáu iddynt ddarparu ymyriadau mwy datblygedig a gweithio o dan lai o oruchwyliaeth. Mae** staff sydd ar secondiad o asiantaethau partner ac, mewn nifer o achosion, y defnydd o wirfoddolwyr ar gyfer gwasanaethau fel mentora, yn ychwanegu at weithlu'r Timau Troseddwyr Ifanc.


3.14 **Mae Timau Troseddwyr Ifanc yn trefnu i amryw o ymyriadau gael eu darparu'n allanol, sef gweithgareddau mwy arbenigol fel arfer, fel yng nghyswllt camddefnyddio sylweddau – dim ond un enghraifft sydd o Dîm Troseddwyr Ifanc yn cael ei ddarparu'n allanol yn gyfan gwbl.** Mae mwyafrif y contractau'n destun tendrau cystadleuol (sydd â graddau cystadlu amrywiol) a chânt eu dyfarnu ar sail tâl sefydlog. Gwelwyd rhai achosion o Dimau Troseddwyr Ifanc ac awdurdodau lleol yn caffael ar y cyd i leihau costau.

3.15 **Ar sail sampl o 20 o Dimau Troseddwyr Ifanc, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng costau uned Timau Troseddwyr Ifanc unigol ac mae gwaith dadansoddi rhagarweiniol o gydberthyniadau'n dangos nad oes dim perthynas rhwng maint y Tîm Troseddwyr Ifanc a'r gost fesul uned, sy'n awgrymu nad yw Timau Troseddwyr Ifanc mwy yn fwy effeithlon o reidrwydd ac nad yw arbedion maint yn cael eu cyflawni.** Mae'r costau fesul uned a gyfrifwyd (ar gyfer 2013/14) yn amrywio ymhellach yn ôl y math o warediad a chategori'r risg – er enghraifft, costau'r broses o Dîm Troseddwyr Ifanc yn darparu ei elfennau o Orchymyn Cadw a Hyfforddi safonol, sydd â risg isel, yw tua £2,400, o'u cymharu â chostau Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid risg uchel, sef tua £7,100. Yn gyffredinol, mae costau fesul uned yn cynyddu yn ôl lefel y risg a chymhlethdod yr ymyriad – yr eithriadau yn hyn o beth yw'r achosion pan nad yw gwarediadau'n cael eu cwblhau oherwydd troseddu pellach.

3.16 **Nid yw Timau Troseddwyr Ifanc yn olrhain gwerth am arian ac maent yn canolbwyntio ar ddarparu'r hyn y maent yn ystyried yn gywir ar gyfer unigolyn ifanc (yn hytrach na'r hyn sy'n gymesur).** Nid yw data'n cael eu casglu i'w gwneud yn bosibl cynnal asesiadau parhaus ynglŷn â gwerth am arian, sy'n ei gwneud yn anodd hefyd lunio casgliadau o ran a yw gwerth am arian yn cael ei gyflawni ar lefel gyfanredol.

3.17 **Nododd y Timau Troseddwyr Ifanc a gafodd eu cyfweld eu bod yn disgwyl rhagor o doriadau i'r gyllideb a gwnaethant fynegi pryder y byddai hyn yn eu gorfodi i fod â ffocws mwy cul ac i weithredu mewn modd ymatebol, a allai, mewn blynyddoedd dilynol, arwain at gynnydd yn nifer y newydd-ddyfodiaid tro cyntaf i'r system cyfiawnder troseddol**. Nododd nifer o Dimau Troseddwyr Ifanc y byddai rhagor o ostyngiadau i'r cyllid yn cynyddu'r llwyth achos fesul gweithiwr achos (gan ddod â'r cyfraddau'n nes at gyfraddau'r gwasanaeth prawf i oedolion) ac yn lleihau amrywiaeth y gweithgareddau yr oeddent yn ymwneud â hwy – enghraifft nodweddiadol yw y byddent yn symud o waith ataliol at gyflawni ymrwymiadau statudol yn unig. Cafwyd pryderon mai'r dull gweithredu anghywir oedd hwn, gan ei fod yn peri i Dimau Troseddwyr Ifanc weithredu mewn dull sy'n fwy seiliedig ar ymateb i droseddu, yn hytrach na lleihau'r galw (a rhagweld y galw yn y dyfodol) mor fuan ag y bo modd, a all arwain at gynyddu nifer y newydd-ddyfodiaid tro cyntaf yn ddiweddarach.

## Yr effaith ar ddeilliannau cyfiawnder




3.18 **Mae'r dystiolaeth yn amwys o ran a yw Timau Troseddwyr Ifanc yn cael effaith sylweddol ar leihau nifer y newydd-ddyfodiaid tro cyntaf, y niferoedd yn y ddalfa neu gyfraddau aildroseddu.**

3.19 Er bod nifer y newydd-ddyfodiaid tro cyntaf wedi gostwng, a hynny o 61,000 i 22,000 ers 2009/10, mae nifer o ddylanwadau'n cyfrannu at hynny, ac nid Timau Troseddwyr Ifanc yn unig. Er bod Timau Troseddwyr Ifanc wedi chwarae rhan mewn creu mwy o hyder yn y broses brysbennu a chynyddu'r defnydd a wneir ohoni (ac mae'r Timau Troseddwyr Ifanc hynny sy'n ymgymryd â gwaith ataliol â niferoedd is o newydd-ddyfodiaid tro cyntaf na'r rhai nad ydynt yn gwneud gwaith o'r fath, er nad yw hynny'n adlewyrchu'r amrywioldeb posibl yn y cohort), gellid ystyried bod y newid o ran dull mesur perfformiad yr heddlu hefyd yn chwarae rhan allweddol o ran lleihau nifer y newydd-ddyfodiaid tro cyntaf.

3.20 Yn yr un modd, er y gall Timau Troseddwyr Ifanc helpu i lywio'r farnwriaeth a'r ddedfryd, nid yw'n debygol bod y gostyngiad o 47% mewn gwarediadau i'r ddalfa wedi deillio o'u gweithgareddau hwy yn unig a bydd hefyd yn dibynnu ar y ddarpariaeth o wasanaethau ieuenctid eraill.

3.21 Mewn cyferbyniad â hynny, mae'r cynnydd o 3.3 pwynt canran[2] yn y gyfradd aildroseddu'n awgrymu, o ran y mesur y mae Timau Troseddwyr Ifanc yn debygol o gael y dylanwad mwyaf arno, fod eu perfformiad cyfanredol wedi gostwng.

3.22 **Ar ben hynny, mae'r gwaith ymchwil a wnaed yn yr archwiliad hwn yn awgrymu bod diffyg manylder yn nealltwriaeth Timau Troseddwyr Ifanc o'r hyn sy'n gweithio o ran lleihau aildroseddu a bod yr arferion gorau yn cael eu rhannu rhwng Timau Troseddwyr Ifanc i raddau cyfyngedig yn unig.** Er ei bod yn ymddangos bod Timau Troseddwyr Ifanc yn gyfarwydd â'r hyn y mae angen mynd i'r afael ag ef i leihau'r tebygolrwydd o droseddu neu o droseddu eto, nid ydynt yn gwybod, er enghraifft, bwysigrwydd cymharol ymyriadau neu ym mha drefn y dylid eu darparu i gael yr effaith orau. Nid yw'r sefyllfa'n cael ei

---

[2] Er bod y gyfradd wedi'i chyhoeddi yn 2013/14, mae'r oedi sy'n gysylltiedig â data aildroseddu yn golygu mai'r gyfradd aildroseddu y cyfeirir ati yw cyfradd y flwyddyn flaenorol mewn gwirionedd – 2012/13.

gwella gan y ffaith nad oes data hydredol i ganfod sut y mae ymyriadau ar lefel ieuenctid yn effeithio ar droseddu gan oedolion a chyfleoedd cyffredinol mewn bywyd.


3.23 **Mae gwaith dadansoddi rhagarweiniol o gydberthyniadau'n awgrymu hefyd nad oes fawr o berthynas rhwng lefelau cyllido a pherfformiad (fel y'i mesurir gan fetrigau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid), sy'n awgrymu, o ran y mesurau cul hyn, y gellid targedu'r arian yn well.** Er bod perfformiad Timau Troseddwyr Ifanc unigol yn amrywio ar draws y metrigau, ar draws y system mae gwaith dadansoddi rhagarweiniol yn awgrymu bod diffyg cydberthyniad rhwng y cyllid a'r perfformiad. Nid yw'n ymddangos bod gwario mwy yn arwain at ddeilliannau gwell. Ar ben hynny, ymddengys mai effaith gyfyngedig a gaiff lefelau staffio ar berfformiad, a'r awgrymiad a gafwyd gan y Timau Troseddwyr Ifanc a gafodd eu cyfweld yw mai'r ymyriadau a'r dulliau gweithredu eu hunain sydd fwyaf pwysig. Mae hyn yn awgrymu eto fod diffyg dealltwriaeth ar draws Timau Troseddwyr Ifanc o'r ymdrech y mae'n gymesur ei neilltuo i wahanol weithgareddau a phryd y cyrhaeddir y pwynt pan geir enillion lleihaol.

3.24 **Yn wir, mae'r gwaith dadansoddi rhagarweiniol yn awgrymu bod y cydberthyniadau cryfaf â mesurau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w cael ag amodau cymdeithasol-economaidd a demograffeg – ffactorau nad yw Timau Troseddwyr Ifanc yn gallu dylanwadu arnynt.**

3.25 **Fodd bynnag, mae nifer o gyfyngiadau'n gysylltiedig â metrigau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (o ran troseddu yn arbennig) sy'n creu amheuaeth o ran pa mor berthnasol ydynt ar gyfer dangos effaith lawn Timau Troseddwyr Ifanc.** Mae Timau Troseddwyr Ifanc a rhanddeiliaid eraill wedi mynegi pryderon am fetrigau presennol. Mae'r pryderon a fynegwyd yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

- **Mae'r metrigau'n gweithio yn erbyn ei gilydd, o bosibl:** er enghraifft, yn y tymor byr, gall cynyddu'r niferoedd yn y ddalfa leihau ffigurau aildroseddu.
- **Mae'r metrigau'n rhai tymor byr,** nad ydynt yn cynnwys dim gofyniad i ystyried yr effaith hydredol – ac yn wir nid oedd dim o'r Timau Troseddwyr Ifanc y siaradwyd â hwy yn cofnodi data mewn perthynas â hyn.
- **Ystyrir bod y metrig ynghylch aildroseddu'n cyflwyno her arbennig**. Mae'r perfformiad yn amrywio yn hyn o beth, gan fod cyfraddau aildroseddu'r perfformwyr 'gwaethaf' tua 50% yn uwch na'r rhai 'gorau', ond heb broses effeithiol ar gyfer categoreiddio Timau Troseddwyr Ifanc, nid yw'n amlwg beth ddylai'r gyfradd 'gywir' fod. Yn fwy sylfaenol na hynny, canfyddir y perfformwyr 'gwaethaf' ar sail ffigurau cymharol yn hytrach na ffigurau absoliwt. O ganlyniad, gall ymddangos bod perfformiad yn gostwng pan fo'n gwella mewn gwirionedd – e.e. mae'r gyfradd aildroseddu wedi cynyddu 3.3 pwynt canran ers 09/10, ond o safbwynt niferoedd absoliwt, cafwyd gostyngiad mewn aildroseddu, a hynny o 46,000 i 19,000.
- **Mae'r mesurau presennol yn rhai cul ac nid ydynt yn ystyried y gwahaniaethau rhwng Timau Troseddwyr Ifanc** o ran natur eu galw, demograffeg leol ac yn y blaen – nid ydynt yn cael eu haddasu i ystyried i ba gategori y gall Tîm Troseddwyr Ifanc fod yn perthyn iddo, gan olygu ei bod yn anodd meincnodi mewn modd ystyrlon.
- **Nid yw'r mesurau'n ystyried natur newidiol y cohort:** fel y nodwyd yn eang, wrth i nifer y newydd-ddyfodiaid tro cyntaf ostwng, ystyrir bod y cohort sy'n weddill yn fwy tebygol o aildroseddu a'i bod yn anos ymdrin â hwy. Er ei bod yn anodd cadarnhau graddau'r newid hwn, gall peidio â'i ystyried wrth gymharu metrigau o un flwyddyn i'r llall greu darlun camliwiedig.

## Y cyfraniad at y sefyllfa gyffredinol




3.26 **O ystyried y sefyllfa ehangach ym maes cyfiawnder ieuenctid, mae nifer y troseddwyr ac aildroseddwyr profedig wedi gostwng o fod ychydig yn llai na 140,000 i lai na 50,000, ac mae asiantaethau partneriaid yn cydnabod bod Timau Troseddwyr Ifanc wedi hwyluso deilliannau cadarnhaol i bobl ifanc, gan gynnwys cyfranogaeth mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.** Er, yn ôl mesurau cul y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, y gall perfformiad Timau Troseddwyr Ifanc fod yn amheus, ceir darlun ehangach o lwyddiant yn y gostyngiad yn nifer y troseddwyr ar y cyfan. Er na phrofwyd bod cyswllt achosol, mae'n rhesymol cynnig y ddamcaniaeth fod dull gweithio cyfannol Timau Troseddwyr Ifanc wedi cyfrannu at hyn.

3.27 **Gallai'r hanesion hyn o lwyddiant, os cânt eu profi, gael eu hystyried yr un mor deilwng o gael eu hymchwilio iddynt os ydynt yn arwain at arbedion i bwrs y wlad yn ddiweddarach, o ran costau lles neu gostau'r ddalfa a phrawf i oedolion. O ganlyniad, gallai ffocws cul ar fetrigau cyfiawnder ieuenctid presennol greu perygl bod manteision ehangach yn cael eu colli.**

3.28 **Heb strwythurau cryfach ar gyfer atebolrwydd lleol a chenedlaethol, ychydig o ddulliau ysgogi sydd gan y rhai sy'n llunio polisïau a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w gosod ar Dimau Troseddwyr Ifanc os ydynt yn perfformio'n wael.** Er y gwelwyd tystiolaeth ar draws y system o fyrddau rheoli lleol da ar gyfer Timau Troseddwyr Ifanc, nid yw'n glir pa gamau y gallant eu cymryd os bydd perfformiad yn gostwng. Yn ychwanegol at hynny, mae diffyg canolbwyntio ar berfformiad busnes, fel costau fesul uned. Mae problemau pellach ar lefel genedlaethol. Nid yw'r cyswllt rhwng Timau Troseddwyr Ifanc a llywodraeth ganolog yn glir nac yn effeithiol, er enghraifft mae amodau grant y mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn eu cysylltu â chyllid grant Timau Troseddwyr Ifanc yn dameidiog ac nid ydynt yn cael eu gorfodi. Er y gellid ymgymryd â gwelliannau yn hyn o beth, bydd atebolrwydd cenedlaethol bob amser yn dibynnu ar lefelau cyllido, ac felly nid yw'n rhesymol disgwyl i Dimau Troseddwyr Ifanc fod yn atebol i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn unig os nad yw ond yn darparu traean o'r cyllid. Ar ben hynny, os bydd y cyllid y maent yn ei gyfrannu yn parhau i ostwng, mae'n bosibl y bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder (a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid) yn ei chael yn anodd cymell Timau Troseddwyr Ifanc i ganolbwyntio ar ei fetrigau cyfiawnder ieuenctid yn unig.

# Argymhellion

## Mesur a dehongli perfformiad

I. **Nodwch yn gliriach a chytunwch ar y deilliannau a ddymunir ym maes cyfiawnder ieuenctid,** a hynny'n seiliedig ar ddealltwriaeth fwy manwl o'r prif ysgogwyr, a dyfeisiwch **fetrigau perfformiad newydd a phriodol er mwyn cynnwys deilliannau ehangach a ddymunir**. Sylwch: heb ddiffiniad gwell o ddeilliannau neu gyswllt â metrigau perfformiad partneriaid statudol eraill, bydd cynyddu'r graddau y mae'r sector preifat a'r trydydd sector yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn peri problemau.

II. Datblygwch a rhowch ar brawf **ddull amlddimensiynol newydd o gategoreiddio Timau Troseddwyr Ifanc**, er mwyn cydnabod yr amrywiaeth o ran yr angen a'r galw y mae Timau Troseddwyr Ifanc yn eu hwynebu, ac i ganiatáu i'r rhai sy'n llunio polisi flaenoriaethu categorïau gwahanol yn ôl ffactorau penodol sydd o ddiddordeb. Defnyddiwch y categorïau newydd i **ganfod y Timau Troseddwyr Ifanc 'gorau yn eu dosbarth' i gynorthwyo Timau Troseddwyr Ifanc eraill**.

## Cyllid a gwerth am arian

III. **Adolygwch ac addaswch y dyraniad ariannol** yn sgil proses gategoreiddio Timau Troseddwyr Ifanc, metrigau a deilliannau a ailgadarnhawyd/a newidwyd. Datblygwch **ddealltwriaeth well o'r galw** (gan gynnwys niferoedd a chymhlethdod) **ac ysgogwyr y costau fesul uned**. Sylwch: os bydd deilliannau'n parhau heb eu newid (hynny yw, gan gadarnhau ffocws gymharol gul), mae tystiolaeth ddadansoddol ragarweiniol yn dangos **na ddisgwylir i ostyngiad yn y cyllid arwain at ostyngiad yn y perfformiad**.

IV. Ystyriwch gyflwyno **proses cyflwyno ceisiadau** am gyllid canolog, sy'n peri bod **cymhelliad** drwy gystadleuaeth i arloesi neu ledaenu'r arferion gorau. O ganlyniad, byddai gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid fwy o reolaeth o ran pa Dimau Troseddwyr Ifanc sy'n cael cyllid ac ar beth y mae'n cael ei wario – fodd bynnag, byddai'n lleihau sicrwydd Timau Troseddwyr Ifanc ynghylch cyllid / lefelau staffio a byddai'n cynyddu costau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ychydig.

V. Cynorthwywch Dimau Troseddwyr Ifanc i gynnal **ymarferion gwerth am arian** gan ddefnyddio dadansoddeg o ddata hydredol i ddatblygu dealltwriaeth well o'r hyn sy'n ysgogi perfformiad yn y tymor hir. Cyfunwch ac ychwanegwch at y canfyddiadau ar lefel genedlaethol.

VI. Ystyriwch gyflwyno cymhwyster neu **gynllun cenedlaethol ar gyfer achredu gweithwyr Cyfiawnder Ieuenctid** i gefnogi arloesedd a'r ddarpariaeth o wasanaethau newydd.

VII. Cynorthwywch Dimau Troseddwyr Ifanc i **nodi'r gwasanaethau nad oes llawer o alw amdanynt ar lefel unigol fel y gallant ganfod a ellir darparu'r rhain yn fwy effeithlon ar lefel ranbarthol neu ar y cyd**.

VIII. Cwblhewch **asesiad gwerth am arian sy'n cymharu'r modelau darparu ar gyfer oedolion a'r rhai i bobl ifanc**. Defnyddiwch yr asesiad i ganfod y nodweddion sy'n creu gwerth (yn hytrach na'r gost yn unig) ac ymchwiliwch i'r thema o gymesuredd mewn gwahanol gyfnodau ymyrryd.

## Atebolrwydd

IX. **Diffiniwch (neu mireiniwch) beth y byddai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid am i'r Timau Troseddwyr Ifanc fod yn atebol amdano**, ac yna ewch ati i **gynnwys y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn fwy lleol**, er enghraifft drwy ei gwneud yn orfodol i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid fynychu byrddau Timau Troseddwyr Ifanc neu iddo fod yn aelod ohonynt.

X. Cyflwynwch drefn o **gyflwyno adroddiadau'n fwy rheolaidd**, **ar sail amser real,** er mwyn **gwella tryloywder, osgoi oedi** a pheri bod modd ymyrryd os daw perfformiad gwael i'r amlwg. Nodwch y sail ar gyfer ymyrryd fel bod Timau Troseddwyr Ifanc yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

Cyfeiria Deloitte at un neu ragor o Deloitte Touche Tohmatsu Limited (“DTTL”), cwmni preifat y DU sy’n gyfyngedig drwy warant, a’i rwydwaith o gwmnïau sy’n aelodau, y mae pob un ohonynt yn endid annibynnol ac ar wahân yn gyfreithiol. Gweler www.deloitte.co.uk/about i gael disgrifiad manwl o strwythur cyfreithiol DTTL a’i gwmnïau sy’n aelodau.

Deloitte LLP yw cwmni y Deyrnas Unedig sy’n aelod o DTTL.

Ysgrifennwyd y cyhoeddiad hwn mewn termau cyffredinol ac felly ni ellir dibynnu arno i gwmpasu sefyllfaoedd penodol; bydd cymhwyso’r egwyddorion a nodir yn dibynnu ar yr amgylchiadau arbennig sydd o dan sylw ac rydym yn argymell eich bod yn cael cyngor proffesiynol cyn gweithredu neu ymatal rhag gweithredu ar sail unrhyw beth sydd wedi’i gynnwys yn y cyhoeddiad hwn. Byddai Deloitte LLP yn falch o gynghori darllenwyr ar sut i gymhwyso’r egwyddorion a nodir yn y cyhoeddiad hwn i’w hamgylchiadau penodol hwy. Nid yw Deloitte LLP yn derbyn unrhyw ddyletswydd gofal nac atebolrwydd am unrhyw golled a achosir i unrhyw berson sy’n gweithredu neu sy’n ymatal rhag gweithredu o ganlyniad i unrhyw ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn.

© 2015 Deloitte LLP. Cedwir pob hawl.

Mae Deloitte LLP yn bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi’i chofrestru yng Nghymru a Lloegr â’r rhif cofrestredig OC303675 a’i swyddfa gofrestredig yw 2 New Street Square, Llundain EC4A 3BZ, y Deyrnas Unedig. Ffôn: +44 (0) 20 7936 3000 Ffacs: +44 (0) 20 7583 1198